# Polisi a Gweithdrefn Apeliadau Academaidd Rhaglen Pearson Addysg Uwch Coleg Gwent

| | |
|---|---|
| Dyddiad Cwblhau asesiad effaith ar Gydraddoldeb: | Awst 2025 |
| Cymeradwywyd gan: | Tîm Rheolaeth y Coleg |
| Dyddiad Cymeradwyo: | Awst 2025 |
| Awdur: | Y Pennaeth Addysg Uwch |
| Dyddiad yr Adolygiad | Awst 2027 |

| Cyhoeddwyd ar y: | Wefan ( ) | Mewnrwyd ( ) | Parth Dysgu ( ) |
|---|---|---|---|
| | | | |

**1.0 Diben a Chwmpas**

Caiff gweithdrefn apeliadau academaidd Coleg Gwent eu llywio gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol OIA-HE ar gyfer Addysg Uwch a'r Cod Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch y DU. Pennod B9 Apeliadau Academaidd a Chwynion myfyrwyr. Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bob Tystysgrif Genedlaethol Uwch/Diploma Cenedlaethol Uwch Pearson a ddarperir yn y Coleg.

1.1 Diben

Diben y weithdrefn hon yw caniatáu i ddysgwyr Coleg Gwent ar raglenni addysg uwch godi pryderon ynghylch canlyniadau eu hasesiadau a chanlyniadau Byrddau a Phaneli sy'n gwneud penderfyniadau ar gynnydd, a dyfarniadau.

Mae'r Coleg a'i sefydliad dyfarnu yn ystyried pryderon o'r fath yn rai difrifol iawn.

Nod y weithdrefn hon yw galluogi ystyried pryderon myfyrwyr yn llawn ac yr eir i afael â nhw mewn modd amserol a phriodol.

Mae gweithdrefn apeliadau academaidd cymwysterau Pearson ar gael ar wefan y Coleg ac fe'i hysbysir i bob dysgwr Addysg Uwch sy'n astudio cymwysterau Pearson fel rhan o'u proses gyflwyno.

1.2 Cwmpas

Mae mecanweithiau cadarn yn bodoli yng Ngholeg Gwent i sicrhau bod asesiad yn deg a phriodol. Cynhelir asesiad yn ofalus ac mae'n destun dilysu mewnol. Mae Arholwyr Allanol sy'n goruchwylio'r broses asesu yn gwirio enghreifftiau. Gellir cynnal gweithdrefn apêl academaidd os yw myfyrwyr yn dymuno cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad asesu, a wnaed ar sail eu llwyddiant neu eu cynnydd academaidd.

1.2.2 Yn unol â Chod Ymarfer Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch Adran B9 Apeliadau Academaidd, diffinnir apêl academaidd fel:

> *'Cais am adolygu penderfyniad sefydliad academaidd sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar gynnydd, asesiad a dyfarniadau myfyriwr'.*

Mae apêl academaidd yn gwahaniaethu rhwng cwyn. Felly, ystyrir apeliadau a chwynion o dan weithdrefnau gwahanol. Yn unol â Chod Ymarfer yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, gellir diffinio cwyn fel:

> *'Mynegiant o bryder penodol ynghylch materion sy'n effeithio ar safon cyfleoedd dysgu*

*myfyriwr'.*

Er enghraifft: Mynegiant ffurfiol o anfodlonrwydd a wnaed un ai gan fyfyriwr unigol neu grŵp o fyfyrwyr, ynghylch darpariaeth eu rhaglen astudio, gwasanaeth academaidd perthnasol, adran neu unrhyw wasanaeth y mae'r Coleg yn ei ddarparu ac felly, ni ddylid defnyddio'r Weithdrefn Apeliadau i godi cwynion.

**2.0 Yr Hawl i Apelio**

2.1 Ein hymrwymiad
Gall unrhyw fyfyriwr sy'n cyflwyno apêl yn unol â'r weithdrefn hon wneud hynny heb ofni cael ei roi dan anfantais. Ymdrinnir â'r apeliadau mewn modd sensitif a rhoddi sylw dyledus i gyfrinachedd pob parti. Rhennir manylion ond gyda staff sydd angen gwybod, er mwyn ymchwilio ac ymateb. Y Pennaeth Addysg Uwch fydd yn ymchwilio i'r Apêl.

Os yw Apêl yn ymwneud â phenderfyniad y Bwrdd Asesu, bydd y Bwrdd Asesu sydd wedi ailymgynnull yn cynnwys aelod o staff cwricwlwm annibynnol o'r maes rhaglen dan sylw.

2.2 Gall seiliau dros apêl academaidd gynnwys:

- Afreoleidd-dra gweithdrefnol yn y drefn asesu;
- Amgylchiadau esgusodol nad oedd modd i chi ddweud wrth y Bwrdd Asesu Addysg Uwch amdanynt.

Yn gyffredinol, ni chaiff rhesymau dros apelio ar fater academaidd eu hystyried mewn perthynas â dyfarniad academaidd neu benderfyniadau a wnaed ar safon y gwaith.

2.3 Gelwir materion eraill o anghydfod yn "gwyn" (gweler 1.2.2) ac maent yn ddarostyngedig i Weithdrefn Gwynion y Coleg.

Pe ceid sail i reswm cyfiawn dros apelio a gwneud cwyn, bydd y Pennaeth Addysg Uwch yn cadarnhau pa ddull y bydd yn ei ddefnyddio i ddatrys yr apêl a'r gwyn. Bydd hyn yn cael ei benderfynu, drwy ymgynghori â'r apelydd /achwynydd.

Yn achos ymdrin â chwyn ac apêl, gellir gohirio un weithdrefn, yn amodol ar gwblhau'r weithdrefn arall.

**3.0 Cyflwyno Apêl**

3.1. Cam Anffurfiol

Ceisia'r cam datrys anffurfiol ddatrys pryderon syml yn gyflym. Mae gan fyfyriwr yr hawl i fynd â chynrychiolydd gydag ef/hi i unrhyw gyfarfod.

Os yw eich apêl yn ymwneud â gradd rydych wedi ei chael yn ystod y flwyddyn, yn y lle cyntaf, cysylltwch â Phennaeth yr Ysgol a lleisiwch eich pryderon os gwelwch yn dda.

Os yw eich apêl yn ymwneud â phenderfyniad Bwrdd Asesu Addysg Uwch, anfonwch e-bost at Michelle.cooper@coleggwent.ac.uk a rhowch grynodeb o'ch sail dros apelio.

Dylai un o'r canlynol fod yn ganlyniad y cam anffurfiol:

1. Mae'r myfyriwr yn fodlon peidio â pharhau gyda'r apêl.
2. Mynd ymlaen i gam ffurfiol.

3.2 Cam Ffurfiol:

Gellir defnyddio'r cam ffurfiol os ceir achos o afreoleidd-dra gweithdrefnol, dirnadaeth o ragfarn neu amgylchiadau esgusodol nad oedd modd rhoi gwybod amdanynt.

I gyflwyno apêl ffurfiol, rhaid defnyddio ffurflen apeliadau'r Coleg a geir ar wefan y Coleg. Dylid cyflwyno'r ffurflen hon i'r Pennaeth Addysg Uwch.
Pan fyddwch chi wedi dilyn gweithdrefn apeliadau'r Coleg ac rydych yn parhau i weld yr angen dros gymryd camau gweithredu pellach, y cam nesaf yw apelio drwy gysylltu â thîm Safonau Ansawdd Galwedigaethol Pearson, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost sy'n dilyn:

vocationalqualitystandards@pearson.com

Gallai mai'r rhesymau dros yr apêl bellach hon yw anfodlonrwydd gyda chanlyniad gweithdrefn apelio'r Coleg.

Rhaid gwneud yr apêl hon ymhen pythefnos o ddyddiad llythyr canlyniad y cam ffurfiol.

Bydd yr apêl yn ystyried a ddefnyddiodd y Coleg

- weithdrefnau oedd yn gyson â gofynion Pearson
- y gweithdrefnau'n briodol a theg wrth ddod i ddyfarniadau

**4.0 Gwybodaeth bellach a dyddiadau terfynol**

4.1 Yn achos apeliadau yn ymwneud â'r flwyddyn academaidd 25/26, dyddiad terfynol y Coleg yw 17 Gorffennaf 2026.

Ar bob cam yr apêl, cewch eich cynghori ar y cam nesaf neu'r adolygiad.

Pan fyddwch chi wedi defnyddio'r weithdrefn apeliadau, bydd y Coleg yn cyhoeddi llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Dylech gael hwn ymhen 21 diwrnod gwaith.

Bydd apeliadau academaidd yn ystyried a:

- oedd y penderfyniad gwreiddiol yn gywir yn drefniadol;
- gwnaed y penderfyniad gwreiddiol ar sail yr wybodaeth gywir;
- oes gwybodaeth newydd, ychwanegol i'w hystyried;
- oes rhesymau dilys pam na chyflwynwyd yr wybodaeth hon i'w hystyried y tro blaen;
  - cafodd yr apelydd ei drin yn deg.

4.2 Pan fydd y cam apêl wedi ei gwblhau, mae hawl genych i ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol OIA, gwasanaeth ombwdsmon annibynnol y dewis olaf un, ystyried eich apêl. Rhaid gwneud pob cais i'r OIA ymhen deuddeg mis o ddyddiad llythyr Cwblhau Gweithdrefnau a gyhoeddir gan y Coleg i'r myfyriwr.

4.3 Mae'r OIA yn ystyried cwynion am ganlyniad proses apeliadau'r Coleg gan bobl sy'n parhau'n anfodlon â chasgliad gweithdrefn apeliadau'r Coleg. Mae'r OIA yn ystyried materion tebyg i, a ddilynodd y Coleg ei gweithdrefnau, a oedd y gweithdrefnau hyn yn rhesymol, ac a oedd penderfyniad terfynol y Coleg yn rhesymol ym mhob un amgylchiad.

Bydd y Coleg yn ymateb i unrhyw ymholiadau OIA yn unol ag amserlenni OIA.

Yn gyffredinol, ni all yr OIA ystyried apeliadau;

- os na wnaeth y myfyriwr gynnydd drwy holl gamau gweithdrefnau apeliadau'r Coleg;
- os cyfeiria'r apeliadau at faterion sy'n hŷn na thair blwydd oed;
- lle derbynnir y llythyr Cwblhau Gweithdrefnau wedi'r cyfnod amser o ddeuddeg mis

**5.0 Adolygiad blynyddol a chyhoeddi apeliadau academaidd**

5.1 Mae Tîm Rheoli'r Coleg yn cymeradwyo ac yn adolygu'r weithdrefn apeliadau academaidd yn flynyddol. Fel rhan o'r adolygiad hwn, bydd y Grŵp Llywio Addysg Uwch yn derbyn adroddiad ar apeliadau. Ei nod yw sicrhau bod y weithdrefn apêl academaidd yn parhau i fodloni datblygiadau yn yr amgylchedd Addysg Uwch, a'i fod yn cyfrannu ac yn cydfynd â systemau sicrhau ansawdd eraill gan lywio, lle bo'n berthnasol, unrhyw welliannau angenrheidiol er mwyn gwella profiad y myfyriwr.

5.2 Gwahoddir cynrychiolwyr Addysg Uwch y Myfyrwyr i fynd i'r adolygiad blynyddol a chyfrannu at unrhyw benderfyniad a wneir ar newidiadau i'r weithdrefn.

5.3 Bydd y Grŵp Llywio Addysg Uwch yn ystyried adroddiadau crynodeb apeliadau dienw, a byddant ar gael i Lywodraethwyr ac i sefydliadau dyfarnu, fel bo'r angen.